# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 8 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(62)v5

**1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog (60 munud)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y cwestiynau

**2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**3. Datganiad gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Ty: Tâl rhanbarthol (45 munud)**

**4. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Tai Gwag (30 munud)**

**5. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd: Blaenoriaethau cyllido'r UE ar gyfer y dyfodol (30 munud)**

**6. Gorchymyn Personau Cydnabyddedig (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) (Cymru) 2012 (15 munud)**

**NDM4975 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Personau Cydnabyddedig (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2012.

**Dogfennau Ategol:**
Gorchymyn Personau Cydnabyddedig (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) (Cymru) 2012
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – dim pwyntiau adrodd

**7. Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012 (15 munud)**

**NDM4976 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2012.

**Dogfennau Ategol:**
Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012
Memorandwm Esboniadol (Saesneg yn unig)
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol – dim pwyntiau adrodd

**8. Cynnig Cydsyniad ar Orchymyn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2012 (15 munud)**

**NDM4932 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2012, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2012.

**Dogfennau Ategol:**
Gorchymyn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2012 (Saesneg yn unig)
Dogfen Esboniadol i Orchymyn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2012 (Saesneg yn unig)
Memorandwm Cydsyniad – Gorchymyn Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2012
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**Cynnig i atal y Rheolau Sefydlog**

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**NNDM4980 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan yr eitem olaf o fusnes (NDM4979) i gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ar ddydd Mawrth, 8 Mai 2012.

**9. Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 12 mewn perthynas â Chwestiynau Llafar (5 munud)**

**NDM4979 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 12 mewn perthynas â Chwestiynau Llafar' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mai 2012; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 12, fel y nodir yn Atodiad A o Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Dogfen Ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Busnes

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 9 Mai 2012